

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol o Gyngor Tref Y Bala**

**Mai 1af, 2014**

**Presennol:** Y Maer, Dorothe Evans, Y Dirprwy Faer, Ivora Jones, Dilys Evans, Dilwyn Jones, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

**Ymddiheuriadau:** Sharon Evans, Alun Price, Islwyn Pritchard-Jones, Edith Roberts, John C Williams, Eluned Jones

- 1 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2013
- 2 Rhoddodd y Maer, Mrs Dorothe Evans, adroddiad ar ei gwaith yn ystod y flwyddyn gan gyfeirio at nifer o achlysuron pryd y bu iddi yn rhinwedd ei swydd gynrychioli Cyngor Tref Y Bala. Roedd hefyd wedi cael y cyfle i gyfrannu o gronfa'r Maer at nifer o achosion lleol ac at elusenna. Awgrymodd mai da o beth fyddai cynnal Cyfarfod Agored yn yr Henblas i drethdalwyr gael y cyfle i gyfarfod gyda'r Cyngorwyr. Diolchodd yn arbennig i'r Dirprwy Faer am ei chefnogaeth ar hyd y flwyddyn, a diolchodd i'r Clerc am ei gwaith.  
  
Ar ran y Cyngor, diolchodd Dilwyn Jones yn gynnes iawn i'r Maer am y modd urddasol yr oedd wedi cyflawni ei rôl ar hyd y flwyddyn.
- 3 Etholwyd Mrs Ivora Jones yn Faer am y flwyddyn 2014-15.
- 4 Etholwyd Mr Eifion Roberts yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2014-15.
- 5 Penodwyd Cyngorwyr i weithredu ar is bwyllgorau (gw.*rhestr cynrychiolwyr*).
- 6 Enwebwyd Dorothe Evans ac Eluned Jones fel cynrychiolwyr Y Bala i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
- 7 Enwebwyd Alun Price, Dorothe Evans, Dilwyn Jones a Dilys Evans fel cynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.
- 8 Adolygwyd a mabwysiadwyd Rheolau Sefydlog y Cyngor.
- 9 Mabwysiadwyd Rheoliadau Cyllidol ac ystyriwyd Aseiad Risgiau Ariannol .
- 10 Adolygwyd a mabwysiadwyd Polisi Amgylcheddol y Cyngor.
- 11 Adolygwyd a mabwysiadwyd Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.
- 12 Adolygwyd a mabwysiadwyd Trefniadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- 13 Adolygu a mabwysiadu Trefn Cwynion y Cyngor.
- 14 Mabwysiadwyd Strategaeth Buddsoddi ar gyfer y Cyngor .

- 15 Cadarnhawyd y Cytundeb rhwng y Cyngor Tref fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd.
- 16 Ystyriwyd Prydles Y Domen . Cytunwyd i oedi rhag arwyddo'r Cytundeb eleni na chwaith talu'r rhent nes y bydd mater atgyweirio'r wal wedi ei ddatrys .
- 17 Adolygwyd rhestr eiddo ac asedau'r Cyngor . *Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd wedi cymryd meddiant o holl eiddo Cyngor Tref Y Bala yn yr ail drefnu yn 1974. Ymddengys felly mai Cyngor Gwynedd sydd berchen ar y Gofeb Goffa er bod Cyngor Tref Y Bala yn gofalu amdano. Nid ydyw Cofeb Tom Ellis ar restr eiddo Cyngor Gwynedd, a'r casgliad ydyw na fu'r gofeb erioed ym meddiant y Cyngor Tref. Y cof ydyw mai'r Rhyddfrydwyr a osododd y gofeb ar y Stryd Fawr.*
- 18 Adolygwyd y trefniadau yswiriant a rhoddwyd yr hawl i'r is-bwyllgor cyllid ddewis rhwng dau gynnig ar gyfer 2014-15.
- 19 Cadarnhawyd Mantolenni ac Adroddiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer yr Archwilwyr.
- 20 Cadarnhawyd dyddiad cyfarfodydd 2014-15 fel a ganlyn:

**Dyddiadau Cyfarfodydd Cyngor Tref Y Bala 2014-15:**

3/4/14

1/5/14

5/6/14

3/7/14

4/9/14

2/10/14

6/11/14

11/12/14

8/1/15

5/2/15

Chwefror: Cyfarfod ystyried ceisiadau am gefnogaeth – dyddiad i'w bennu

5/3/15

7.00pm – yng Nghanolfan Bro Tegid ac wedyn yn Ystafell Tom Ellis, Henblas